Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Gweithwyr cymdeithasol ar y Gofrestr

## 1 Ebrill 2019

### Beth yw'r prif bwyntiau?

Mae gweithwyr cymdeithasol wedi gorfod cofrestru gyda ni ers **2005**

Mae **6,263** o weithwyr cymdeithasol wedi'u cofrestru, sef cynnydd ar **6,133** yn 2018

Mae llwyth achosion gwaith cymdeithasol gan **3,806** ohonynt

Mae'r Gofrestr o weithwyr cymdeithasol wedi'i hen sefydlu ac mae'r niferoedd wedi aros yn gyson

### Beth yw'r tueddiadau dros bum mlynedd?

Mae'r gymhareb menywod i ddynion yn parhau'n **4:1**

Gostyngodd canran y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o **75% yn 2014** i **72% eleni**

Cynyddodd y ganran a gyflogir yn y sector preifat o **5% yn 2014** i **8%**

Cynyddodd y ganran sydd â gradd meistr neu faglor mewn gwaith cymdeithasol o **29% yn 2014** i **46% eleni**

### Faint sydd wedi gadael ac wedi ymuno â'r Gofrestr?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **276** o weithwyr cymdeithasol y Gofrestr ac ymunodd 406

Roedd **48%** o'r sawl a adawodd heb gynnal eu cofrestriad

Roedd **25%** o'r sawl a adawodd wedi ymddeol

Parhaodd **8%** i weithio mewn gofal cymdeithasol y tu allan i Gymru

Cafodd **3** gweithiwr cymdeithasol eu dileu yn dilyn gwrandawiad addasrwydd i ymarfer

### Pa gymwysterau sydd gan weithwyr cymdeithasol?

Mae gan **46%** radd baglor neu feistr mewn gwaith cymdeithasol

Mae gan **38%** diploma mewn gwaith cymdeithasol

Mae gan **13%** gymhwyster hŷn derbyniol mewn gwaith cymdeithasol

Roedd **3%** wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

### Ym mhle mae gweithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi?

Mae **72%** yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **8%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **5%** yn gweithio yn y trydydd sector

Mae **4%** yn hunangyflogedig

Mae **43%** o weithwyr cymdeithasol wedi bod yn eu rôl bresennol ers tair blynedd neu lai

Mae **12%** wedi bod yn eu rôl bresennol ers 10 mlynedd neu fwy

### Beth yw proffil gweithwyr cymdeithasol?

Mae **5,114** o fenywod a **1,149** o ddynion

Oedran cyfartalog gweithwyr cymdeithasol yw **46** mlwydd oed

Mae **88%** o weithwyr cymdeithasol yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig

Mae **38.5%** o weithwyr cymdeithasol yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl yn y Gymraeg

Mae anabledd gan **2.5%** o weithwyr cymdeithasol